19

CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 20ed MEDI 2022

PRESENNOL:
Cyng Ms N Dafydd, J Evans, G Jones, J E Lewis, Miss B Owen, R G Parry, W R Parry, D T Roberts, Mrs L Roberts, R R Roberts,

YMDDIHEURIADAU:
Neb.

Croesawyd aelod newydd i`r Cyngor gan y Clerc a`r Cynghorwyr R G Parry.
Y Cynghorwr yn arwyddo ffurflen Dartganiad Derbyn Swydd ar ddechrau y cyfarfod.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Cyng Bethan Owen Cynllunio Rhif 1. Cyng R G Parry Elusen William Bold.

CAEL COFNODION 19eg GORFFENNAF 22 YN RHAI CYWIR: Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng G Jones. Gyda pawb yn hapus.

Swyddogion 2022/23.
Cadeirydd. Cyng J Evans. (Ward Heneglwys) Cynnig Cyng W R Parry eilio Cyng R R Roberts.

Is-Gadeirydd. Cyng D T Roberts. (Ward Llandrygarn) Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng G Jones.

Un Llais Cymru. Cyng Miss B Owen a Cyng Mrs L Roberts. Cynnig G Jones, eilio Cyng R R Roberts.

Cynrychiolydd / wyr. Mudiadau ayyb. Cadeirydd a / neu Is-Gadeirydd.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Elusen William Bold.
Clerc wedi anfon cwestiynau ymlaen ond siomedig na chafwyd ymateb (15.8.22)
Cael arweiniad gan Adran Gyfreithiol Un Llais Cymru hefyd mae dewisiadau eraill.
Anfon yn pwysleisio nad yw`r mater yn mynd i ffwrdd. Rhoi un cyfle arall iddynt ymateb (14 diwrnod)
Cynnig Cyng G Jones, eilio Cyng R R Roberts.
Cyng R G Parry yn datgan diddordeb wedi bod yn Gadeirydd ar yr Elusen.

Hysbysford. Bodffordd.
Mae rhai o`r Cynghorwyr wedi bod yn yr Ysgol i weld lle i gael yr Hysbysford.
Wedi cael prisiau gan KBS Depot, Norfolk.
Hysbysford Traddodiad drws sengl 6 x A4 arwydd siap cromen pen ysgrifenedig panel pennawd, mewn arian anodeiddiedig (alwminiwm) £443 mewn gwyrdd £534.
Penderfynnu mynd am yr alwminiwm. Cynnig Cyng G Jones eilio Cyng J E Lewis. Pawb o`r un farn.

Llywodraethwr / wraig. Ysgol Bodffordd.
Cyng Mrs Llinos Roberts fydd yn cynrychioli y Cyngor Cymdeithas ar fwrdd y Llywodraethwyr.
Cynnig Cyng Mis B Owen, eilio Cyng D T Roberts.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2022/191. Cais ol weithrediad i greu mynediad newydd:-
   Rhyd Fawr, Trefor.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig R R Roberts, eilio Cyng G Jones.

PENDERFYNIADAU.

2. ENF/2022/170.
   Rheolwr Gorfodaeth Cynllunio. Steven W Owen.
   Rhyd Caradog, Llandrygarn.
   Mater mewn llaw. Rhaid disgwyl. Derbyn a cadw mewn golwg.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
   FW: Datganiad: Penodi Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc newydd.
   Penodwyd Marc Berw Hughes.
   Wedi bod yn Bennaeth Ysgol Craig y Don ac Ysgol Bodafon, Llandudno.
   Ddirprwy Bennaeth Ysgol Capelulo, Dwygyfylchi.
   Swyddog Addysg gyda Cyngor Bwrdeistref Conwy.
   Derbyn. Telu Berw o Pentre Berw.

4. Adran Priffyrdd - Dylan E Hughes.
   Problemau a godwyd yn Blwyfol. (Rhaglen> 21 Mehefin 2022)
   Sgwar Bodffordd. Contractwyr yn ail wneud marciau ffordd i adnewyddu y marciau ar sgwar Bodffordd yn y dyfodol agos.
   Gwrychyn ger Lloches Bws wrth y Capel, Bodffordd. Ymchwilio i fewn i gael torri yn fuan.
   Llinnel wen Cyffordd ger Castell, Tynlon wedi diflannu. Gwneud y marciau yr un amser a Sgwar Bodffordd.
   Darn hir o fetal wedi torri o`r Bus Stop ger Haulfryn Bodffordd, ond ar ol i`r Cyngor Sir cael golwg arno gwelwyd na darn o`r Lloches Bws oedd. Y Cyngor Cymdeithas sydd yn gyfrifol amdano. Bydd angen cael rhywun i`w drwsio yn fuan.
   Derbyn yr uchod a gobeithio bydd y dyfodol agos yn agos.

5. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Ehangiad Stad Ddiwydiannol Penrhos wedi`i gadarnhau. Ail ddatblygu safle hen faes Hofrenyddion ym Mharc Busnes Modern 23 Uned yn mynd rhagddo`n dda.
   Derbyn dim sylw.

6. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Uwchraddio ystafell ffitrwydd Canolfan Hamdden David Hughes, Porthaethwy. Buddsoddiad o becyn £115,000. Er mwyn diweddaru`r offer yn y gampfa.
   Dim sylw.

7. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Uwchraddio toiledau ar hyd Arfordir Mon gyda diolch i nawdd o £248,000. Rhan o becyn gwerth £2.9 miliwn a gyhoeddwyd Llywodraeth Cymru. Ei moderneiddio a`u gwella fydd traethau mwyaf prysur Ynys Mon. Benllech, Bae Trearddur, Porth Swtan a Phorth Dafarch.
   Derbyn.

8. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Datganiad Mannau Gwefru Cerbydau Trydan cyflym wedi`u gosod yn Nhrefi Ynys Mon. Mewn

meysydd parcio yn Amlwch, Caergybi, Llangefni a Phorthaethwy. Bydd prosiect peilot yn cefnogi nod yr Awdurdod i gyflawni statws sero net erbyn 2030.
Derbyn. Bydd llawer wedi digwydd erbyn 2030.

9. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Datganiad: Cae 3G Newydd yn agor ym mis Medi. Cae Chwarae Newydd gwerth £130,000 yn agor yng Nghanolfan Hamdden Amlwch. Cae newydd yn dod yn lle`r cae pump ochr a`r Ardal Gemau aml-ddefnydd sy`n bodoli yn y Ganolfan Hamdden ar hyn o bryd. £75.000 gan Chwaraeon Cymru a chyfraniad o £55,000 gan y Cyngor Sir.
Derbyn. Dim mwy i fanylu.

10. Swyddog Polisi - Rhian w Jones.
Datganiad: Cyllid costau byw i Drigolion Ynys Mon.
Ar hyn o bryd yn Gweinyddu Cynllun Taliadau grant costau byw £150 i Gartrefi cymwys ar Ynys Mon. Bandiau Treth Cyngor A-D a Chartrefi A-I sy`n derbyn gostyngiad Treth Cyngor taliadau eraill sy`n cael ei gwneud (3 gwahanol) Prif daliad costau byw, gwerth cyfanswm o £650, ar gyfer y rhai hynny ar Fudd-Daliadau Cysylltiedig ag Incwm a Chredydau Treth. (Talu mewn dau ran £326 taliad cyntaf a £324 yw`r ail.) Y taliad Pensiynwyr, gwerth £300, ar gyfer pawb sydd yn derbyn y taliad Tanwydd Gaeaf. Y Taliad anabledd gwerth £150 ar gyfer y rhai hynny ar fudd-daliadau anabledd na gyfrifir ar sail modd.
Derbyn y wybodaeth.

11. Swyddog Hyrwyddo Polisi a`r Gymraeg. David Parry.
Helpwch ni ddysgu mwy am ddefnyddio`r Gymraeg yn Mon ac effaith Pencampwyr Iaith Gymraeg Cynghorau Tref a Chymuned.
Rhoi enw Cyng Miss B Owen ymlaen. Cynnig Cyng Ms N Dafydd eilio Cyng Mrs L Roberts.

12. Pwyllgor Safonau Lynn Ball (John R Jones Cadeirydd)
Newyddlen y Pwyllgor Safonau ar gyfer Cynghorau Swyddogol.
Copi wedi ei rhoi i`r Cynghorwyr i`w ddadansoddi. Y Clerc yn pwysleisio fod Cynghorwr yn ei ddarllen a bod yn gyfarwydd a`r cyflwyniad.

13. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Datganiad: Gwaith gwerth £400,000 ynn dechrau ar welliannau i Barc Gwledig Morglawdd, Caergybi.
Derbyn. Dim yn berthnasol i Gymuned Bodffordd.

14. Uwch Beiriannydd - Adain Cynnal. Barri B Jones.
Ail wynebu Lon Bodwrog.
Y Clerc yn atgoffa o drafodaeth dros flwyddyn yn ol, na gwyneb dros dro. (Addewid y buasai yn cael ei ail wynebu ar ol Mis Ebrill 2022)
Yn ymateb. Cadarnhad fod gwaith atgyweirio parhaol ar y lon uchod wedi ei gwblhau gan y Contractwr (Hogan) yn ystod Mehefin 2021, R`oedd cost y gwaith clytio ac ail wynebu llecynnau ar hyd y ffordd y gwnaethpwyd dros flwyddyn yn ol bellach yn dwad oddeutu £91,000 i gyd.
Nid oes bwriad gwneud unrhyw ychwanegiad pellach ar y ffordd dan sylw ar hyn o bryd.
Ddim yn hapus ar ymateb nid yw`r gwaith clytio yn dda o feddwl am y gost. Arian yw`r £91,000 o daliad gan PAR am ddifrod i`r lon (Apel mewn bod)
Cafwyd ar ddeall nawr fod yr Apel wedi methu.

15. Rheolwr Datblygu Busnes - Sion Arwel Jones.
Gwaith ail wynebu ar yr A55 rhwng cyffordd 10 a 9.

Dydd Sul 25ain Mai cwblhau 31ain Mai 2022.
Gwaith dros nos rhwng 19.00 - 6.00. Mi fydd y ffordd ar gau yn ystod oriau gwaith.
Trafod y mater , cysylltu a GCE ar 01407 721296.
Derbyn y wybodaeth.

16. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Cyngor Mon a SSAFA yn cydweithio i gefnogi cyn-filwyr. Mae`r Cyngor Sir yn cydweithio ag Elusen Lluoedd Arfog y DU er mwyn cefnogi cyn-filwyr sy`n profi caledi ariannol. Cyngor Sir yn sicrhau £580.00 er mwyn Cynllun Cymorth Disgresiynol Costau Byw ar ran Llywodraeth Cymru. Rhan o`r Cyllid hwn yn cael i`w ddefnyddio yn lleol. (Mwy o wybodaeth Lee Jones 01248 752129.)
Derbyn y wybodaeth cadw mewn golwg os bydd angen.

GOHEBIAETH (ARALL)
17. Cae Chwarae. Gaynor Jones.
Gofynwyd am fantolen arian arall. (Ddim yn hapus ar diwethaf) Derbyniwyd mantolen arall. Wedi ei cyflwyno i`r Cynghorwyr unwaith yn rhagor (tair blynnedd) nid oeddynt yn dderbyniol o`r ffordd ai gosodwyd allan. Dim yn dangos y derbyniadau a thaliadau yn gywir.
Derbyn mewn egwyddor. Dim yn dderbyniol mewn awdit.

18. Adroddiad Anghenion Tai Bodffordd. Grwp Cynefin.
Diweddariad ar y sefyllfa dai ym Modffordd. I`w ddefnyddio fel atodiad i`r adroddiad gwreiddiol cafodd ei greu yn 2020. (Amgauedig i1r Cynghorwyr.
Disgwyl yn awr am ychwanegiad.

RHODDION.
19. a. Gofal Canser Tenovus. Gadael hyd Mawrth 2023.

b. Ty Gobaith Hosbis Plant. Gadael hyd Mawrth 2023.

PLWYFOL.
20. Mae 20 yn ddigon meddau arwyddyddion Cymru.
Mewn cam arloesol mae llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fod o MEDI 2023.
Bydd lonydd preswyl mewn ardaloedd adeiledig yn gweld terfyn cyflymder ar gyfer cerbydau yn gostwng i 20 mya. Bydd rheolau newydd ynn cael ei cyflwyno mewn ymdrech lleihau gwrthdrawiad ffordd ac alogiad. Yn cymhwyso i ffyrdd cyfyngu rhain hefo postiau lamp stryd llai na 200 llath arwahan.
Amcangyfrif y Cynllun yn gost o £32 miliwn i gyflwyno. Ond mae`r Llywodraeth (Llafur) yn amcangyfrif bydd posibilrwydd o gyniliad o £58 miliwn dros y 30 mlynedd nesaf.
Cost o £100 a tri pwynt ar y drwydded am fynd mwy ar cyflymder. Mae Sir Fynwy wedi gwrthdroi y 20 mya mewn llawer o Bentrefi ar ol adwaith negyddol i gynllun prawf trwy adfer y 30 mya ar lawer o ffyrdd.
Beth ydyw barn y Cyngor yn ein Wardiau ni.
Bydd trafodaeth ond nid oedd llawer o sylw. Hanfodol ei fod yn cael ei gario ymlaen wrth yr Ysgol a phosib trwy`r Pentref. Nid oes neb yn gwybod ydyw yn gweithio ne pheidio o gwmpas yr Ysgol ar hyn o bryd am nad ydyw yn gyfreithiol.
Posibilrwydd fydd na`r Cyngor Sir fydd yn dewis ac yn ei gorfodi. Mae siwr o fod yn gynllun gwneud arian i`r coffrau.

21. Hysbysford Bodwrog (Neuadd Goffa)
Mae yr hysbysford wedi mynd yn wael. Y bord ei hun sydd yn cael ei guro gan y tywydd.
Cael amcangyfrif am ford newydd i ffitio ar y coesau presennol. (6 x A4) Cynnig Cyng G Jones

eilio Cyng R R Roberts.

22. Y posibilrwydd o gael hysbysford yn y Fynwent Gymunedol Bodffordd. Mae yn pwysig i gael gwybodaeth o rheolau y Fynwent. Mynd i sbario helyntion yn y dyfodol. Cael amcangyfrif am hysbysford (4 x A4) Alwminiwm. Cynnig Cyng G Jones, eilio Cyng J E Lewis.
Mae angen rhywun cael golwg ar giat bach y fynwent mae`r handlan agoriadol yn anodd i`w symud ac yn agos at y postyn giat. gwneud yn anodd i`r henoed.

23. Mae hen broblam yn ymddangos gyda`r ceir yn parcio o flaen Tai High Street Bodffordd ar draws y lon i Ty Twyrch. Gyda cyflymdra y traffig yn dynesu y pentref rownd y tro, a traffig yn dod i fynnu trwy`r pentref. Mae yn peryglus, bydd damwain yn fuan. Mae gan rhai lle parcio yn y cefn ond mae rhai yn gorfod defnyddio y lon, fel dywedodd Cyng W R Parry.
Deallwyd fod a bosibilrwydd fod busnes yn cael ei redeg yn Graigwen, High Street.
Y Clerc i edrych i fewn a oes ffordd o ddatrys y broblam. Unfrydol.

24. Ceir a Faniau yn parcio mwy na pheidio ddyd a nos o flaen y Garej ym Modffordd. Mae llinellau melyn wedi ei rhoi ond ers hynnu maent yn parcio yn uwch. Y Clerc i gysylltu ac Adran Priffyrdd y Cyngor Sir i weld y ffordd ymlaen. Unfrydol.

25. Bins Gwyrdd wedi diflannu o`r Fynwent Gymunedol Bodffordd. Cafwyd Sybrydiad mae Heneglwys sydd yn ei defnyddio. Clerc a Cyng Ms N Dafydd yn gofyn am un arall gan y Cyngor Sir. Cyng J E Lewis yn datgan diddordeb.

26. Rhai eiddo ym Mhentref Bodffordd yn cael ei esgeuluso gan y perchnogion, mae yn ddolur ar lygaid noeth, mae yntynnu gwerth tai yb gymdogaeth i lawr mae`n achosi drwg deimlad, mae yn hen archwyniad. Ond nawr mae pethau yn gwaethygu, mae angen gweithredu.
Trafodwyd a`r unig sylw oedd am yr Hen Bost ar Sgwar Bodffordd. Nid oedd neb yn barod i fanylu am eiddo eraill. Mae yn anodd gwybod beth i`w wneud `r Hen Bost, cysylltwyd a`r Cyngor Sir amser yn ol ond ni chafwyd llawer o lwyddiant. Eiddo Preifat.

MATERION ARIANNOL:

14. Cyfrif Rhedegol £13,876.75. (Preseb 2 i law £3,666.67)
Mynwent Gymunedol £6,890.00.

TALIADAU:

15. Clerc £250.00. Treth Incwm 2 £187.50. Gweinyddu (3 mis) £205.64. Zurich Municipal £544.21.

Derbyn y taliadau a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng G Jones, eilio Cyng R R Roberts.

D Owen (Clerc)